

## **Erthygl 12 Gwneud Penderfyniadau**

### **12.1 Cyfrifoldeb am Wneud Penderfyniadau**

Bydd y Cyngor yn cyhoeddi ac yn diweddarau cofnod o ba ran o'r Cyngor neu ba unigolyn sydd â chyfrifoldeb am wahanol fathau o benderfyniadau neu benderfyniadau sy'n ymwneud â meysydd neu swyddogaethau arbennig. Cyflwynir y cofnod hwn yn Rhan 3 o'r Cyfansoddiad hwn.

### **12.2 Egwyddorion Gwneud Penderfyniadau**

Gwneir holl benderfyniadau'r Cyngor yn unol â'r egwyddorion canlynol:-

- (a) bod yn gymesur (h.y. rhaid i'r cam gweithredu fod yn gymesur â'r canlyniad a ddeisyfir);
- (b) ymgynghori'n briodol a chymryd cyngor proffesiynol gan swyddogion;
- (c) parchu hawliau dynol (gweler isod am ragor o fanylion);
- (d) rhagdybiaeth o blaid bod yn agored;
- (e) bod yn glir ynghylch nodau a'r canlyniadau a ddeisyfir;
- (f) cofnodi'r rhesymau dros y penderfyniad ynghyd â chofnodi unrhyw fuddiant personol a ddatgelir, unrhyw hawl i siarad a ganiateir gan Bwyllgor Safonau'r Awdurdod, a manylion am yr ymgynghori a waned.

### **12.3 Penderfyniadau a Gedwir i'r Cyngor Llawn**

Gwneir penderfyniadau sy'n ymwneud â'r swyddogaethau a restrir yn Erthygl 4.2 gan y Cyngor Llawn ac ni fyddant yn cael eu dirprwyo oni nodir fel arall.

### **12.4 Gwneud Penderfyniadau gan y Cyngor Llawn**

Yn ddarostyngedig i Erthygl 12.8 isod, bydd cyfarfod o'r Cyngor yn dilyn Rheolau Gweithdrefn y Cyngor a nodir yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad hwn wrth ystyried unrhyw fater

### **12.5 Gwneud Penderfyniadau gan y Cabinet**

Yn ddarostyngedig i Erthygl 12.8 isod, bydd y Cabinet yn dilyn Rheolau Gweithdrefn y Weithrediaeth a nodir yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad hwn wrth ystyried unrhyw fater.

## **12.6 Gwneud Penderfyniadau gan Bwyllgorau Craffu**

Bydd Pwyllgorau Craffu yn dilyn y Rheolau Gweithdrefn Craffu a nodir yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad hwn wrth ystyried unrhyw fater.

## **12.7 Gwneud Penderfyniadau gan Bwyllgorau Eraill a Sefydlir gan y Cyngor**

Yn ddarostyngedig i Erthygl 12.8 isod, bydd pwyllgorau eraill y Cyngor yn dilyn y rhannau hynny o Reolau Gweithdrefn y Cyngor a nodir yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad hwn sy'n gymwys iddynt hwy.

## **12.8 Gwneud Penderfyniadau gan Gyrff y Cyngor sy'n Gweithredu fel Tribiwnlysoedd**

Bydd y Cyngor, Cynghorydd neu Swyddog sy'n gweithredu fel tribiwnlys neu mewn dull lled-farnwrol neu sy'n penderfynu/ystyried (ac eithrio i bwrpas rhoi cyngor) hawliau dinesig a rhwymedigaethau neu gyfrifoldeb troseddol unrhyw berson, yn dilyn gweithdrefn briodol sy'n cyd-fynd â gofynion cyfiawnder naturiol a'r hawl i brawf teg a gynhwysir yn Erthygl 6 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.